## Papur Briffio Stiwardiaid

Diolch ichi am gytuno i helpu i stiwardio'r sesiwn Chwarae'r Tu Allan.

Mae rôl y stiward yn allweddol er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb sy'n rhan o'r sesiynau chwarae'r tu allan. Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn drylwyr. Eich rôl chi fydd:

**1. Cau ac ail-agor y ffordd yn ddiogel**, gosod arwyddion a chonau yn unol â chanllawiau swyddogol y cyngor a pheidio fyth â rhoi eich hun mewn perygl cael eich taro gan draffig sy'n gyrru tuag atoch. Ar ddiwedd y sesiwn, gwnewch yn siŵr bod pob rhiant a phlentyn yn deall bod pethau'n dychwelyd i 'normal' *cyn* ail-agor y ffordd.

**2. Bod yn weladwy, yn effro ac yn ddiogel**. Gwisgwch siaced lachar. Gosodwch eich hun mewn man ble byddwch yn gwbl weladwy i draffig sy'n dod i'ch cyfeiriad a ble byddwch yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'r ardal sydd wedi ei chau. Dylech osgoi, o fewn rheswm, unrhyw sgyrsiau neu weithgareddau allai dynnu eich sylw.

**3. Dargyfeirio traffig trwodd.** Byddwch yn ddigyffro a chyfeillgar ond yn bendant. Eglurwch yn gryno'r hyn sy'n digwydd a pha mor hir y bydd yn para. Awgrymwch ffordd arall iddyn nhw. Os oes angen, byddwch yn gwbl glir bod y ffordd wedi ei chau'n gyfreithiol a bod ymgynghoriad llawn wedi ei gynnal gyda'r trigolion. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael pentwr o daflenni 'Chwarae'r Tu Allan' i'w dosbarthu.

## Papur Briffio Stiwardiaid

Diolch ichi am gytuno i helpu i stiwardio'r sesiwn Chwarae'r Tu Allan.

Mae rôl y stiward yn allweddol er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb sy'n rhan o'r sesiynau chwarae'r tu allan. Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn drylwyr. Eich rôl chi fydd:

**1. Cau ac ail-agor y ffordd yn ddiogel**, gosod arwyddion a chonau yn unol â chanllawiau swyddogol y cyngor a pheidio fyth â rhoi eich hun mewn perygl cael eich taro gan draffig sy'n gyrru tuag atoch. Ar ddiwedd y sesiwn, gwnewch yn siŵr bod pob rhiant a phlentyn yn deall bod pethau'n dychwelyd i 'normal' *cyn* ail-agor y ffordd.

**2. Bod yn weladwy, yn effro ac yn ddiogel**. Gwisgwch siaced lachar. Gosodwch eich hun mewn man ble byddwch yn gwbl weladwy i draffig sy'n dod i'ch cyfeiriad a ble byddwch yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'r ardal sydd wedi ei chau. Dylech osgoi, o fewn rheswm, unrhyw sgyrsiau neu weithgareddau allai dynnu eich sylw.

**3. Dargyfeirio traffig trwodd.** Byddwch yn ddigyffro a chyfeillgar ond yn bendant. Eglurwch yn gryno'r hyn sy'n digwydd a pha mor hir y bydd yn para. Awgrymwch ffordd arall iddyn nhw. Os oes angen, byddwch yn gwbl glir bod y ffordd wedi ei chau'n gyfreithiol a bod ymgynghoriad llawn wedi ei gynnal gyda'r trigolion. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael pentwr o daflenni 'Chwarae'r Tu Allan' i'w dosbarthu.

## Papur Briffio Stiwardiaid

Diolch ichi am gytuno i helpu i stiwardio'r sesiwn Chwarae'r Tu Allan.

Mae rôl y stiward yn allweddol er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb sy'n rhan o'r sesiynau chwarae'r tu allan. Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn drylwyr. Eich rôl chi fydd:

**1. Cau ac ail-agor y ffordd yn ddiogel**, gosod arwyddion a chonau yn unol â chanllawiau swyddogol y cyngor a pheidio fyth â rhoi eich hun mewn perygl cael eich taro gan draffig sy'n gyrru tuag atoch. Ar ddiwedd y sesiwn, gwnewch yn siŵr bod pob rhiant a phlentyn yn deall bod pethau'n dychwelyd i 'normal' *cyn* ail-agor y ffordd.

**2. Bod yn weladwy, yn effro ac yn ddiogel**. Gwisgwch siaced lachar. Gosodwch eich hun mewn man ble byddwch yn gwbl weladwy i draffig sy'n dod i'ch cyfeiriad a ble byddwch yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'r ardal sydd wedi ei chau. Dylech osgoi, o fewn rheswm, unrhyw sgyrsiau neu weithgareddau allai dynnu eich sylw.

**3. Dargyfeirio traffig trwodd.** Byddwch yn ddigyffro a chyfeillgar ond yn bendant. Eglurwch yn gryno'r hyn sy'n digwydd a pha mor hir y bydd yn para. Awgrymwch ffordd arall iddyn nhw. Os oes angen, byddwch yn gwbl glir bod y ffordd wedi ei chau'n gyfreithiol a bod ymgynghoriad llawn wedi ei gynnal gyda'r trigolion. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael pentwr o daflenni 'Chwarae'r Tu Allan' i'w dosbarthu.

## Papur Briffio Stiwardiaid

Diolch ichi am gytuno i helpu i stiwardio'r sesiwn Chwarae'r Tu Allan.

Mae rôl y stiward yn allweddol er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb sy'n rhan o'r sesiynau chwarae'r tu allan. Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn drylwyr. Eich rôl chi fydd:

**1. Cau ac ail-agor y ffordd yn ddiogel**, gosod arwyddion a chonau yn unol â chanllawiau swyddogol y cyngor a pheidio fyth â rhoi eich hun mewn perygl cael eich taro gan draffig sy'n gyrru tuag atoch. Ar ddiwedd y sesiwn, gwnewch yn siŵr bod pob rhiant a phlentyn yn deall bod pethau'n dychwelyd i 'normal' *cyn* ail-agor y ffordd.

**2. Bod yn weladwy, yn effro ac yn ddiogel**. Gwisgwch siaced lachar. Gosodwch eich hun mewn man ble byddwch yn gwbl weladwy i draffig sy'n dod i'ch cyfeiriad a ble byddwch yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'r ardal sydd wedi ei chau. Dylech osgoi, o fewn rheswm, unrhyw sgyrsiau neu weithgareddau allai dynnu eich sylw.

**3. Dargyfeirio traffig trwodd.** Byddwch yn ddigyffro a chyfeillgar ond yn bendant. Eglurwch yn gryno'r hyn sy'n digwydd a pha mor hir y bydd yn para. Awgrymwch ffordd arall iddyn nhw. Os oes angen, byddwch yn gwbl glir bod y ffordd wedi ei chau'n gyfreithiol a bod ymgynghoriad llawn wedi ei gynnal gyda'r trigolion. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael pentwr o daflenni 'Chwarae'r Tu Allan' i'w dosbarthu.

**4. Arwain gyrwyr sydd angen mynediad i'r stryd.** Bydd angen dau berson i adael i drigolion yrru i mewn ac allan - un i glirio'r plant oddi ar y ffordd a cherdded o flaen unrhyw gerbydau sy'n symud, y llall i aros ger y man ble mae'r ffordd wedi ei chau. Gwnewch yn siŵr bod y gyrrwr wedi cytuno a bod y ffordd yn glir o blant *cyn* ichi symud y rhwystrau.

**5. Cadw plant ifanc yn ddiogel o fewn yr ardal sydd ar gau.** Os yw plant hŷn wedi derbyn caniatâd i adael y stryd, cofiwch eu hatgoffa i fod yn ymwybodol o'r traffig. Os bydd plentyn yn cyrraedd heb oedolyn, ceisiwch wirio bod eu rhiant neu warcheidwad yn gwybod ble maen nhw.

**6. Sicrhau bod y stiward sy'n cymryd trosodd gennych wedi darllen y cyfarwyddiadau hyn a rhoi eich siaced lachar a'ch rhuban / chwiban iddynt.**

**SYLWER. Delio gyda gyrwyr ymosodol.** Os bydd gyrrwr yn troi'n ymosodol neu'n fygythiol o gwbl, galwch un o'r trefnwyr draw os oes angen. Os oes rhaid, galwch 999 neu 101.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu bryderon ynghylch eich gallu i gyflawni'r rôl yma, cofiwch ddweud - gall eich trefnydd holi am rywun i gymryd eich lle.

**Eich trefnydd stryd:**

**Cyswllt cyngor:**

**4. Arwain gyrwyr sydd angen mynediad i'r stryd.** Bydd angen dau berson i adael i drigolion yrru i mewn ac allan - un i glirio'r plant oddi ar y ffordd a cherdded o flaen unrhyw gerbydau sy'n symud, y llall i aros ger y man ble mae'r ffordd wedi ei chau. Gwnewch yn siŵr bod y gyrrwr wedi cytuno a bod y ffordd yn glir o blant *cyn* ichi symud y rhwystrau.

**5. Cadw plant ifanc yn ddiogel o fewn yr ardal sydd ar gau.** Os yw plant hŷn wedi derbyn caniatâd i adael y stryd, cofiwch eu hatgoffa i fod yn ymwybodol o'r traffig. Os bydd plentyn yn cyrraedd heb oedolyn, ceisiwch wirio bod eu rhiant neu warcheidwad yn gwybod ble maen nhw.

**6. Sicrhau bod y stiward sy'n cymryd trosodd gennych wedi darllen y cyfarwyddiadau hyn a rhoi eich siaced lachar a'ch rhuban / chwiban iddynt.**

**SYLWER. Delio gyda gyrwyr ymosodol.** Os bydd gyrrwr yn troi'n ymosodol neu'n fygythiol o gwbl, galwch un o'r trefnwyr draw os oes angen. Os oes rhaid, galwch 999 neu 101.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu bryderon ynghylch eich gallu i gyflawni'r rôl yma, cofiwch ddweud - gall eich trefnydd holi am rywun i gymryd eich lle.

**Eich trefnydd stryd:**

**Cyswllt cyngor:**

**4. Arwain gyrwyr sydd angen mynediad i'r stryd.** Bydd angen dau berson i adael i drigolion yrru i mewn ac allan - un i glirio'r plant oddi ar y ffordd a cherdded o flaen unrhyw gerbydau sy'n symud, y llall i aros ger y man ble mae'r ffordd wedi ei chau. Gwnewch yn siŵr bod y gyrrwr wedi cytuno a bod y ffordd yn glir o blant *cyn* ichi symud y rhwystrau.

**5. Cadw plant ifanc yn ddiogel o fewn yr ardal sydd ar gau.** Os yw plant hŷn wedi derbyn caniatâd i adael y stryd, cofiwch eu hatgoffa i fod yn ymwybodol o'r traffig. Os bydd plentyn yn cyrraedd heb oedolyn, ceisiwch wirio bod eu rhiant neu warcheidwad yn gwybod ble maen nhw.

**6. Sicrhau bod y stiward sy'n cymryd trosodd gennych wedi darllen y cyfarwyddiadau hyn a rhoi eich siaced lachar a'ch rhuban / chwiban iddynt.**

**SYLWER. Delio gyda gyrwyr ymosodol.** Os bydd gyrrwr yn troi'n ymosodol neu'n fygythiol o gwbl, galwch un o'r trefnwyr draw os oes angen. Os oes rhaid, galwch 999 neu 101.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu bryderon ynghylch eich gallu i gyflawni'r rôl yma, cofiwch ddweud - gall eich trefnydd holi am rywun i gymryd eich lle.

**Eich trefnydd stryd:**

**Cyswllt cyngor:**

**4. Arwain gyrwyr sydd angen mynediad i'r stryd.** Bydd angen dau berson i adael i drigolion yrru i mewn ac allan - un i glirio'r plant oddi ar y ffordd a cherdded o flaen unrhyw gerbydau sy'n symud, y llall i aros ger y man ble mae'r ffordd wedi ei chau. Gwnewch yn siŵr bod y gyrrwr wedi cytuno a bod y ffordd yn glir o blant *cyn* ichi symud y rhwystrau.

**5. Cadw plant ifanc yn ddiogel o fewn yr ardal sydd ar gau.** Os yw plant hŷn wedi derbyn caniatâd i adael y stryd, cofiwch eu hatgoffa i fod yn ymwybodol o'r traffig. Os bydd plentyn yn cyrraedd heb oedolyn, ceisiwch wirio bod eu rhiant neu warcheidwad yn gwybod ble maen nhw.

**6. Sicrhau bod y stiward sy'n cymryd trosodd gennych wedi darllen y cyfarwyddiadau hyn a rhoi eich siaced lachar a'ch rhuban / chwiban iddynt.**

**SYLWER. Delio gyda gyrwyr ymosodol.** Os bydd gyrrwr yn troi'n ymosodol neu'n fygythiol o gwbl, galwch un o'r trefnwyr draw os oes angen. Os oes rhaid, galwch 999 neu 101.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu bryderon ynghylch eich gallu i gyflawni'r rôl yma, cofiwch ddweud - gall eich trefnydd holi am rywun i gymryd eich lle.

**Eich trefnydd stryd:**

**Cyswllt cyngor:**